

CROCHENWAITH YNYSMEUDWY (2)

Adeiladodd Esiah Rees a'i gwmni Gwaith y Bryn, Ynysmeudwy, Pontardawe, yn 1879, ar safle'r hen crochendy. Yna yn 1880 dechreuwyd Gwaith Alcam yn y man hwnnw gan ddefnyddio briciau Ynysmeudwy i adeiladu'r ffwrneisiau. Roedd rhai ohonynt yn dal yno pan oeddem yn cloddio am weddillion y crochendy, a chasglwyd nifer o friciau silica gyda marc Ynysmeudwy arnynt.

Cyflogwyd amryw o bobl leol yn y crochendy, fel y gwelir yng Nghofrestrau Bedydd Llanguwg ac yng nghofrestr y Cyfrifiad am y cyfnod hwnnw. Yn y llyfr *Hanes Hen Ffordorion Gellinudd* mae yna hanes hen, hen fodryb i mi, sef Gwenny Hawkins oedd yn gweithio yng nghrochendy Ynysmeudwy. Ganwyd hi yn Ffarm Gellilwca ym mis Medi 1833, a phan oedd yn ferch fach aeth i weithio at Shôn y Gof yn Ynysmeudwy Isaf. Wedi nifer o flynyddoedd, symudodd i Graig Gellinudd a chyflogwyd hi yng nghrochendy Ynysmeudwy. Yn y llyfr *Hanes Pontardawe* gwelir enw Mr Auckland, perchennog siop lestri oedd hefyd yn gweithio yn y crochendy. Dangosir ef fel 'potter' yn byw yn Ynysmeudwy ar adroddiadau bedydd ei blant.

Yn gynnar yn y 1960au prynais blât 'Willow' oddi wrth Harold Davies, Merton, Abertawe, yr oedd ganddo siop yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin bryd hynny. Roedd ganddo ddau blât Ynysmeudwy, un 'Willow' a'r llall oedd 'Oriental Birds'. Dewisais y cyntaf oherwydd na wyddwn fawr ddim am batrymau Ynysmeudwy ar y pryd. Ond dylwn fod wedi dewis y llall! Mae'n batrwm prin iawn!

Yna yn 1978 sefydlwyd Cymdeithas Hanes Cwm Tawe ac wedi clywed darlith ysbrydoledig Derek Harper, a daniodd ein dychymyg gyda'i frwdfrydedd, penderfynwyd mai ein prosiect cyntaf fyddai cloddio ar safle'r crochendy. Cawsom ganiatâd i wneud arolwg ac i gloddio, ar yr amod ein bod yn llenwi'r ffosydd y byddem yn eu hagog. Felly, bob prynhawn Sadwrn dros nifer o wythnosau, byddai criw bychan o aelodau'r gymdeithas yn gweithio'n ddyfal gyda chaib a rhaw yn cloddio yng nghanol rwbwl a mieri hen adfeilion y crochendy. Yn ffodus iawn darganfuwyd tomen o 'shards', sef darnau o grochenwaith gyda enghreifftiau gwych o ddarnau bisged, llestri gleision a darnau pridd. Wedi cloddio am rai wythnosau, daethom ar draws



Willow



Willow



Adar Oriental

nifer fawr o ddarnau mewn ffos tua wyth troedfedd o hyd wrth dair neu bedair troedfedd o led a dyfnder. Ymhen amser fe gasglwyd nifer o ddarnau mân, darnau o 'saggers' sef y blychau i ddal y crochenwaith yn yr odyr erbyn tanio, a 'stils', sef y pileri a ddefnyddiwyd rhwng y platiau i'w gwahanu yn yr odyr wrth eu tanio - y pileri tair-coes oedd yn boblogaidd yn y cyfnod hwn. Cymerodd beth amser i'w didoli, golchi a'u harchwilio nhw. Roedd y mwyafrif yn wyn plaen ond cafwyd darnau mân o Willow; Rio; Woodbine; Vase; Gem a Water Nymph, yn ogystal ag amrywiaeth o 'spongeware' yn cynnwys darnau plaen gyda'r llythrennau YP, YMP a YMP gydag L oddi tano, hefyd fe gawsom rai marciau

crochenydd.

Daeth rhai o'r darnau at ei gilydd fel jigso - yn gwpanau, soseri, platiau, powlenni a.y.y.b. Ymhen hir a hwyr roedd yn bosib adnabod y patrymau wrth eu cymharu â darganfyddiadau eang o waith Clive Reed. Er nad oes enw ar y patrymau 'spongeware' roedd rhain yn cynnwys nifer o batrymau a lliwiau - rhai ohonynt yn amrwd o ran cynllun. Cafwyd darnau o 'Persian Rose' a phatrymau o flodau a dail wedi eu lliwio gyda llaw yn cynnwys llystar, jygiau wedi eu mowldio a phlatiau.

Y darganfyddiad gorau oedd clawr tebot mewn bisged, ond y darganfyddiad pwysicaf oedd y darn plaen fel min cylllell gyda'r enw 'Wellington' arno (llythyr

rhif 2, 1978 o Gymdeithas Hanes Cwm Tawe). Fe allai hwn gyfeirio at Ddug Wellington oherwydd fod y crochendy yn cynhyrchu o 1844-1879, felly gallai fod yn ddarn coffaol. Mae cofnod fod yna jwg goffaol i Wellington wedi ei gwneud yng nghrochendy Cambrian. Ceisio copio honno oedden nhw, neu a oedden nhw wedi dod â darn o le arall ac wedi ei dorri ar y safle?

Cefais hyd i bibell glai ddigon o ryfeddod (dim ond y bowlen) gyda meillionen arni - efallai fod hon yn cael ei defnyddio gan un o'r gweithwyr - ni chafodd ei gwneud yno. Lle da i ddarganfod darnau oedd o dan bont y gamlas, ar y llwybr, lle'r oedd digonedd o ddarnau o grochenwaith a phileri bychan i'w darganfod. Tybiwyd fod bwa o friciau Ynysmeudwy gerllaw ond ni ddarganfuwyd mohoni.

Cynhyrchodd y crochendy nifer helaeth o ddeunydd rhwng 1845 a 1871 o bob lliw a llun yn cynnwys crochenwaith glas a gwyn, llwyd a gwyn, du a gwyn, 'creamware', crochenwaith plaen ac wedi eu peintio â llaw, troslunian, 'Gaudy Welsh', mocha, pridd, llystar pinc a llwyd, darnau coffaol, darnau i blant a 'spongeware'.

Yn ôl John Henry Davies yn ei lyfr *History of Pontardawe*, roedd deg odyr enfawr yn cynhyrchu yn y cyfnod hwn. Mae'n amlwg wrth chwilio drwy hen hysbysebion a disgrifiadau o'r crochendy, a hefyd oherwydd y marciau YP; YMP; WW a Williams, fod rhan helaeth o'r llestri wedi eu cynhyrchu rhwng 1845 a 1860. Fodd bynnag, er prinder y marc 'L and M' nid yw hynny, o reidrydd, yn golygu nad oedd crochenwaith yn cael ei gynhyrchu rhwng 1860 a 1871. Mae'r marc 'Williams' yn awgrymu taw hwn yw'r cynharaf, yn cyfeirio at y brodyr Williams a sefydlodd y crochendy. Cewch y marc hwn ar Gem; Eastern; Rio; Ivy; Alambra; Water Nymph a Rural. Yn dilyn hyn cewch y marc WW ar Flora; Wreath; Chantry ac Alma sydd yn awgrymu fod rhain yn cael eu cynhyrchu yn Ynysmeudwy pan oedd William Williams yn berchennog ar y gwaith.

Yn olaf mae'r marc YMP wedi'i argraffu ar gefn darnau o Willow; Oriental Birds; Nankin; Livinium; Woodbine; darnau wedi eu lliwio â llaw yn ogystal ag Eastern; Rio a phlatiau plant. Gwelwyd plât *Asiatic Pheasant*, gyda'r marc prin L and M.

Dyma restr o lestri heb unrhyw farc arnynt ond sy'n